# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 3 E+W

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR AR SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

## PENNOD 2 E+W

Y DRETH SYDD I'W CHODI AR WAREDIADAU TRETHADWY

*Deunyddiau cymwys a chymysgeddau cymwys o ddeunyddiau*

### 16 Cymysgeddau cymwys o ddeunyddiau E+W

(1) Cymysgedd cymwys o ddeunyddiau yw cymysgedd y mae'r gofynion a ganlyn wedi eu bodloni mewn perthynas ag ef.

*Gofyniad 1*

Mae'r cymysgedd ar ffurf—

(a) un deunydd cymwys neu ragor, a

(b) swm bychan o un deunydd anghymwys neu ragor sy'n atodol i'r deunyddiau cymwys.

*Gofyniad 2*

Ceir—

(a) os yw disgrifiad ysgrifenedig o'r cymysgedd yn ofynnol yn rhinwedd adran 34(1)(c)(ii) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p. 43), ddisgrifiad ysgrifenedig o'r math sy'n ofynnol, neu

(b) os nad yw disgrifiad ysgrifenedig o'r cymysgedd yn ofynnol yn rhinwedd yr adran honno, dystiolaeth arall,

y gellir penderfynu ar ei sail bod gofyniad 1 wedi ei fodloni.

*Gofyniad 3*

Nid yw'r deunyddiau anghymwys wedi eu cymysgu'n fwriadol â'r deunyddiau cymwys at ddibenion—

(a) gwaredu, neu

(b) materion sy'n ymwneud â pharatoi i waredu.

*Gofyniad 4*

Nid yw'r deunyddiau anghymwys yn cynnwys unrhyw ddeunydd a ragnodir fel deunydd na chaniateir ei gynnwys mewn cymysgedd cymwys o ddeunyddiau.

*Gofyniad 5*

Nid yw'r cymysgedd yn wastraff peryglus o fewn ystyr Cyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wastraff dyddiedig 19 Tachwedd 2008.

*Gofyniad 6*

Ni wnaed unrhyw drefniadau mewn cysylltiad â'r cymysgedd y mae osgoi atebolrwydd i'r dreth yn brif ddiben iddynt, neu'n un o'u prif ddibenion.

*Gofyniad 7*

Os yw'r cymysgedd yn gyfan gwbl ar ffurf gronynnau mân, mae unrhyw ofyniad a ragnodir o dan adran 17(1) (naill ai mewn perthynas â chymysgeddau yn gyffredinol neu mewn perthynas â chymysgeddau o'r disgrifiad penodol hwnnw) wedi ei fodloni mewn cysylltiad â'r cymysgedd.

(2) At ddibenion gofyniad 1—

(a) rhaid ystyried pwysau a chyfaint y deunyddiau anghymwys wrth benderfynu a yw swm y deunyddiau hynny i'w drin fel swm bychan ai peidio;

(b) rhaid ystyried potensial y deunyddiau anghymwys i beri niwed wrth benderfynu a yw'r deunyddiau hynny i'w trin fel pe baent yn atodol i'r deunyddiau cymwys ai peidio.

(3) Caiff rheoliadau ddarparu nad yw swm o ddeunyddiau anghymwys i'w drin fel swm bychan at ddibenion gofyniad 1 os yw'n fwy na chanran ragnodedig o'r cymysgedd o ddeunyddiau (yn ôl pwysau neu gyfaint neu'r ddau).

(4) Caiff rheoliadau ddiwygio'r adran hon er mwyn—

(a) ychwanegu gofyniad pellach at is-adran (1),

(b) addasu gofyniad presennol,

(c) dileu gofyniad, neu

(d) gwneud darpariaeth bellach ynghylch materion y mae'n rhaid eu hystyried neu y caniateir eu hystyried at ddibenion penderfynu a yw gofyniad wedi ei fodloni, neu addasu neu ddileu darpariaeth bresennol ynghylch y materion hynny.

(5) Yn yr adran hon—

ystyr "deunydd anghymwys" ("*non-qualifying material*") yw deunydd nad yw'n ddeunydd cymwys;

mae i "gronynnau mân" ("*fines*") yr ystyr a roddir yn adran 17(6);

ystyr "rhagnodedig" ("*prescribed*") yw wedi ei ragnodi mewn rheoliadau;

mae i "trefniant" ("*arrangement*") yr ystyr a roddir yn adran 81B(3) o DCRhT.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 16. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 16 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 16 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 16.